# PECYN ADNODDAU HYRWYDDO YSGOLION

## Cynefin – Man i Berthyn



**“Mae ymdeimlad o berthyn yn hanfodol i deimlo hapusrwydd a lles. Mae’n siapio ymdeimlad dysgwr o bwy ydynt a phwy y gallant ddod, a dylai fod wrth wraidd ethos pob ysgol a lleoliad.”**

**Canllawiau Cwricwlwm i Gymru – Hwb**

Cymraeg i Bawb

# Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| Man Cychwyn | 3 | Rhestr Wirio Ymgysylltu Cymunedol | 22 |
| **Perthyn** | **6** | **Twf** | **23** |
| Deall Rhieni | 7 | Taith Addysg Cyfrwng Cymraeg | 24 |
| Mythau am Addysg Gymraeg | 8 | Ffeithlun Taith Addysg Gymraeg | 26 |
| Cwestiynau Cyffredin | 9 | Deall Cyfnodau Pontio | 27 |
| Awgrymiadau Gorau! | 10 | Llwybrau Gyrfa | 28 |
| Croesawu Teuluoedd | 11 | Cynllun Hyrwyddo Ymarferol | 29 |
| Poster "Dim angen bod yn rhugl..." | 12 | Rolau i Staff a Llywodraethwyr | 31 |
| **Llawenydd** | **13** | Mesur Ymgysylltiad ac Effaith | 32 |
| Adrodd Hanes Eich Ysgol | 14 | **Cysylltiad** | **33** |
| Holiadur i Rieni | 16 | Cefnogi Teuluoedd a Chefnogi Plant ag ADY | 34 |
| Holiadur Plentyn (Cynradd) | 17 | Rhestr Wirio Diwrnod Agored | 38 |
| Holiadur Plentyn (Uwchradd) | 18 | Gwneud a Pheidio â'u Gwneud ar Wefannau | 39 |
| Ein Taith Addysg Gymraeg | 19 | Cyfeirio a Chefnogaeth | 41 |
| Canllaw Lluniau | 20 | Cyllid a Chefnogaeth Ymarferol | 43 |
| Cymuned a Diwylliant | 21 | Myfyrdodau Clo | 44 |


Cymraeg i Bawb
YPB
MENTRAU IAITH
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Man Cychwyn Syml

**Efallai yr hoffech ddechrau gydag ambell ychwanegiad neu addasiad syml ond effeithiol, a all gynyddu pa mor groesawgar yw eich ysgol ar unwaith.**

**Dyma rai mannau cychwyn posibl:**

1. Ychwanegu neges galonogol i'ch gwefan a'ch deunyddiau: "Dim Cymraeg gartref? Dim problem."

2. Ystyried rhannu lluniau dilys:
   – plant yn dysgu
   – staff yn rhyngweithio'n gynnes
   – eiliadau o lawenydd a chwarae

3. Rhannu dyfyniad neu stori fer gan riant ar gyfryngau cymdeithasol.

4. Gweledeedd: gwirio pa mor hawdd yw hi i deuluoedd ddod o hyd i wybodaeth am ymweliadau neu ddigwyddiadau agored.

**Awgrym**
Defnyddiwch yn hyblyg — ewch i mewn ac allan, addaswch, a gwneud iddo weithio i chi.

Awgrymiadau yn unig yw'r rhain, mae ysgolion yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sy'n ymarferol ac yn fwyaf perthnasol i'w cyd-destun eu hunain.

**Gall y camau bach croesawgar hyn wneud gwahaniaeth mawr wrth helpu teuluoedd i deimlo'n fwy hyderus.**

**Bydd y pecyn hwn yn eich helpu i:**

- Feithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd
- Mynd i'r afael â phryderon cyffredin
- Rhannu beth sy'n gwneud eich ysgol yn arbennig
- Cynyddu ymgysylltiad ac ymholiadau

Cymraeg i Bawb
YPB
MENTRAU IAITH
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwyniad

“Mae’r Gymraeg yn perthyn i bob plentyn.”
**– Cymraeg i Bawb**

**Awgrym:**
Dangoswch sut mae plant yn teimlo, nid dim ond beth maent yn ei ddysgu.

Mae’r pecyn adnoddau hwn yn cefnogi ysgolion a lleoliadau ledled De-ddwyrain Cymru i hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ffordd sy’n:

- gynnes ac yn groesawgar
- glir ac yn ymarferol
- seiliedig ar brofiadau teuluoedd go iawn

Wrth wraidd y pecyn hwn mae mewnwelediad syml:
Mae teuluoedd yn dewis ysgolion yn seiliedig ar sut maent yn teimlo.
Mae’r pecyn hwn wedi’i seilio ar bedwar thema allweddol sy’n siapio sut mae teuluoedd yn profi ysgol:

- **Perthyn** – teimlo’n ddiogel, croesawgar ac yn gynhwysol
- **Llawenydd** – profiadau dysgu cadarnhaol ac ymgysylltiol
- **Twf** – hyder, sgiliau a chynnydd dros amser
- **Cysylltiad** – perthnasau â phobl, yr iaith a’r gymuned

Mae’r themâu hyn yn rhedeg drwy’r pecyn cyfan a gellir eu defnyddio i arwain sut rydych yn cyflwyno eich ysgol i deuluoedd.

**Mae'r pecyn hwn yn helpu ysgolion i ymateb i'r anghenion hynny gyda gweithredoedd clir, ymarferol sy'n adeiladu ymddiriedaeth a hyder mewn addysg cyfrwng Cymraeg.**

Cynigir yr adnodd hwn fel teclyn cymorth, nid fel mesur o berfformiad ysgol na disgwyliad o lwyth gwaith ychwanegol. Anogir ysgolion i ddefnyddio dim ond yr hyn sy'n ddefnyddiol yn eu cyd-destun ei hunain.

# Defnyddio'r Pecyn Adnoddau

**Mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio i gefnogi ysgolion a lleoliadau i:**

- Feithrin hyder mewn addysg Gymraeg
- Ymateb i gwestiynau a phryderon cyffredin
- Rhannu manteision ehangach dysgu dwyieithog
- Cryfhau ymdeimlad o berthyn a chymuned
- Hyrwyddo eu hysgol yn glir ac yn effeithiol

**Awgrym:**
Peidiwch â cheisio defnyddio popeth — dechreuwch gydag un newid a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

**Sut i ddefnyddio'r pecyn**

- Dechreuwch drwy adolygu eich gwefan a'r argraffiadau cyntaf gan ddefnyddio'r rhestrau gwirio yn y pecyn hwn
- Dewiswch un neu ddau faes i'w gwella yn gyntaf
- Defnyddiwch y templedi a'r enghreifftiau i ddiweddaru eich deunyddiau
- Rhannwch luniau a straeon go iawn i ddod â'ch ysgol yn fyw
- Rhowch sicrwydd i rieni yn glir ac yn gyson ar draws pob cyfathrebiad

**Defnyddio'r adnoddau**

- Defnyddio fel y maent
- Addasu ar gyfer eich ysgol neu leoliad
- Rhannu gyda staff a llywodraethwyr

**Cefnogi blaenoriaethau CSCA**

Mae'r pecyn hwn yn cefnogi blaenoriaethau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) drwy:

- Gynyddu ymwybyddiaeth gynnar
- Cefnogi pontio i'r ysgol uwchradd
- Cryfhau ymgysylltiad cymunedol
- Hyrwyddo gwerth hirdymor dwyieithrwydd

**Hyblyg ac addasadwy**

Gellir addasu pob adnodd i adlewyrchu eich cyd-destun lleol a'ch cymuned. Lle bo'n bosibl, gellir rhannu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol ychwanegol.

Cymraeg i Bawb · YPB · MENTRAU IAITH · Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Perthyn

**Creu ymdeimlad o berthyn yw'r cam cyntaf sy'n arwain at ddatblygu dinasyddion moesegol a gwybodus.**

**Mae teimlad cryf o hunaniaeth a chymuned yn cefnogi cyfrifoldeb cymdeithasol a dinasyddiaeth.**





# Deall Rhieni

Sylwch fod y term 'rhiant' yn cael ei ddefnyddio'n eang drwy gydol y pecyn adnoddau hwn i gwmpasu gofalwyr, gwarcheidwaid a/neu ofalwyr.

Boed yn disgwyl plentyn, yn newydd i'r ardal, yn dewis ysgol gynradd, neu'n llywio'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd, mae rhieni sy'n ceisio dewis ysgol neu leoliad yng Nghymru fel arfer yn rhoi blaenoriaeth i les cyffredinol eu plentyn wrth wneud penderfyniadau.

Mae rhieni am sicrhau y bydd eu plant yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn teimlo'n gysylltiedig yn yr ysgol. Mae diogelwch emosiynol a theimlad o le a pherthyn yn hollbwysig. Yn ogystal, dylid ystyried lles rhieni eu hunain yn ofalus, yn enwedig os nad ydynt yn siarad Cymraeg, gan y gallant deimlo'n ansicr neu'n ynysig os yw'r iaith yn cael ei hystyried fel rhwystr i ymgysylltu.

**Felly, mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig wrth gynnig sicrwydd a chreu amgylchedd cynhwysol i deuluoedd.**

Dylid ystyried pryderon a gofidiau rhieni'n ofalus. Mae'n hanfodol bod unrhyw gamddealltwriaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei datrys yn gyflym, gan sicrhau bod rhieni'n teimlo'n dawel eu meddwl ac yn cael eu cefnogi. Mae dealltwriaeth glir yn adeiladu hyder ac yn cefnogi teuluoedd wrth wneud penderfyniadau sy'n teimlo'n iawn iddynt. Mae'r adnoddau canlynol wedi'u cynnwys i gefnogi hyn:

- Chwalu Mythau i Rieni
- Taflen Cwestiynau Cyffredin i Rieni
- Awgrymiadau Gorau! Beth i'w gynnwys mewn taflen wybodaeth i rieni (ar gyfer dewis ysgolion cynradd)

**Awgrym:**
Gweithredwch 'Llysgenhadon Rhieni' i leihau'r pryder cychwynnol am y rhwystr iaith.



# Mythau am Addysg Gymraeg

Yma, rydym yn mynd i'r afael â rhai o'r camsyniadau mwyaf cyffredin am addysg cyfrwng Cymraeg y mae rhieni a gwarcheidwaid yn aml yn ei ystyried, poeni neu yn gofyn cwestiynau amdanynt.

**Myth 1: "Ni allwn ni siarad Cymraeg adref, felly bydd fy mhlentyn yn disgyn ar ei hôl hi yn yr ysgol."**

**Wedi'i Ddatrys!** – Daw canran uchel o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad adref. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n ofalus i fynd i'r afael â hyn, gan sicrhau bod pob disgybl, waeth beth fo'i iaith adref, yn cyrraedd rhugldər yn gyflym.

**Myth 2: "Ni allaf siarad Cymraeg. Ni fyddaf yn deall ac ni allaf helpu gyda gwaith cartref."**

**Wedi'i Ddatrys!** – Byddwn bob amser yn cynnig adnoddau a chanllawiau i helpu rhieni i gefnogi eu plant yn effeithiol, gan sicrhau bod cwblhau'r gwaith cartref mor llwyddiannus a di-straen â phosibl! Mae staff ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fedrus iawn wrth gefnogi plant a'u rhieni, gan ddarparu cyfarwyddiadau a rhannu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg i helpu dealltwriaeth.

**Myth 3: "Os yw fy mhlentyn yn rhoi cymaint o ymdrech i'w Gymraeg, bydd eu Saesneg yn dioddef."**

**Wedi'i Ddatrys!** – Mae ymchwil yn dangos bod disgyblion sy'n gadael ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac yn symud i ysgol uwchradd yn cyrraedd yr un lefel medru Saesneg â'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion Saesneg. Yn yr uwchradd, maen nhw'n dilyn y cwricwlwm Saesneg yr un fath ar gyfer TGAU a Lefel A, gan sicrhau eu bod yr un mor barod ar gyfer llwyddiant academaidd.

**Myth 4: "Bydd dysgu mewn dwy iaith yn drysu fy mhlentyn neu'n arafu ei gynnydd."**

**Wedi'i Ddatrys!** – Mae ymchwil o Brifysgol Bangor yn dangos yn gyson bod dysgwyr dwyieithog neu amlieithog yn datblygu sgiliau llythrennedd cryf mewn dwy iaith. Gall dysgu drwy ddwy neu fwy o ieithoedd gryfhau sgiliau meddwl, datrys problemau a gwybodaeth am ieithoedd.



# Cwestiynau Cyffredin

Trwy ateb y Cwestiynau Cyffredin hyn, rydym yn gobeithio mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau neu bryderon gydag eglurder a sicrwydd. Ein nod yw cefnogi rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Rwy'n ystyried addysg cyfrwng Cymraeg unwaith y bydd fy mhlentyn bach yn hyn. Beth allaf ei wneud yn y cyfamser?**

Gall cyflwyno iaith newydd i'ch plentyn fod yn daith hyfryd a gwerthfawr, hyd yn oed os nad ydych yn siarad Cymraeg eich hun. Os oes siaradwyr Cymraeg yn eich teulu neu'ch cymuned, anogwch iddynt ddefnyddio'r Gymraeg gyda'ch plentyn, gall hyn fod yn gam cychwyn gwych. Gallwch ystyried gofalwyr plant neu feithrinfeydd Cymraeg wrth edrych am opsiynau gofal plant. O chwe mis ymlaen, gallwch ymuno â Chylch Ti a Fi lleol, grŵp rhiant a phlentyn a fydd yn cynnig cyfleoedd i gymdeithasu, creu ffrindiau ac ymgolli yn y Gymraeg. Wrth i'ch plentyn dyfu, gallwch ystyried darpariaeth blynyddoedd cynradd cyfrwng Cymraeg. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mudiad Meithrin.

**A fydda i'n dal i deimlo fy mod i'n rhan o addysg fy mhlentyn, os na allaf siarad Cymraeg?**

Wrth gwrs! Mae staff ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg wedi'u hyfforddi'n arbenigol i'ch cefnogi chi, a bydd yr holl adnoddau ar gael yn ddwyieithog i sicrhau bod rhieni'n deall popeth sy'n digwydd. Bydd eich plentyn hefyd yn falch o gyfieithu'r Gymraeg i chi. Mae'r gallu i drosglwyddo syniadau rhwng ieithoedd yn fantais fawr o fod yn ddwyieithog, a gallant arddangos hyn yn argyhoeddiadol o'r dechrau.

**Alla i ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â fy mhlentyn?**

Yn sicr! Mae llawer o rieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant yn cael eu hysbrydoli i ddysgu Cymraeg eu hunain. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i ymarfer sgiliau iaith gyda'i gilydd a chreu cyswllt drwy brofiadau dysgu cyfunol. Mae cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gael ledled Cymru ac yn addas i ddysgwyr ar bob lefel.

https://www.gov.wales/welsh-language-support-and-services

**Beth arall alla i ei wneud ochr yn ochr â'r ysgol i gefnogi datblygiad iaith fy mhlentyn?**

Mae yna lyfrau Cymraeg gwych ar gael sydd â thestun Saesneg ar y cefn neu destun Saesneg o dan y Cymraeg i gefnogi dysgu iaith. Dylai eich llyfrgell leol allu eich cyfeirio at y deunyddiau cywir. Bydd rhaglenni teledu Cymraeg a apiau fel Cyw yn helpu i ddod â'r iaith Gymraeg i ddydd-i-ddydd, ac mae gan y rhan fwyaf o raglenni plant ar S4C isdeitlau Saesneg.

**A yw Cymraeg yn iaith anodd i'w dysgu?**

Mae'r Gymraeg yn iaith Geltaidd sydd â phatrymau a strwythur brawddegau gwahanol i'r Saesneg, sef iaith Almaenaidd gyda nifer o ddylanwadau o ieithoedd Ewropeaidd eraill. Mae llawer o ddysgwyr yn gweld y Gymraeg yn haws i'w darllen a'i llefaru na'r Saesneg oherwydd ei system sillafu ffonetig glir a chyson. Mae adnoddau gwych ar gael (fel ap 'Say Something in Welsh') i gefnogi dysgwyr gyda phethau ynglŷn ag ynganu ac esblygiad llythyrennol (treigladau).

# Awgrymiadau Gorau!

Gellir creu taflen i rieni newydd sy'n teimlo'n gynnes, yn ddeniadol ac sy'n tawelu meddyliau. Pwrpas y daflen yw helpu teuluoedd i ddychmygu eu plentyn yn hapus ac yn addasu'n dda i'ch ysgol neu leoliad. Pwysleisiwch fod plant yn ffynnu pa bynnag iaith maent yn ei siarad gartref a chynnwys delweddau sy'n dangos plant yn chwerthin, chwarae a mwynhau eu profiad yn yr ysgol.

## Elfennau Gweledol:

**Lliwiau**: Defnyddiwch liwiau eich ysgol / darpariaeth. Cadwch y naws yn groesawgar a chynnes. Mae lliwiau naturiol fel gwyrdd, glas a melyn yn helpu i greu teimlad o dawelwch a chysylltiad.
**Delweddau**: Defnyddiwch luniau o ansawdd uchel o blant yn chwerthin, yn chwarae gyda'i gilydd, yn bod yn greadigol ac yn rhyngweithio â staff.
**Dwyieithrwydd**: Gellir trefnu'r testun mewn dwy golofn neu ar ochr arall y daflen, gyda'r Gymraeg yn cael ei gosod gyntaf neu uwchben Saesneg pan fo'n bosibl.

## Cynnwys

**Neges Groeso:** Pwysleisiwch amgylchedd cyfeillgar, meithringar a diogel. Ceisiwch gynnwys motto'r ysgol, dyfyniad o'r CiG neu o athronydd / awdur / hanesydd enwog os yw'n berthnasol i'ch ysgol.
'**Dim Cymraeg gartref? Dim problem!'** Dangoswch yn glir fod staff yn cefnogi'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn dda a fod dros 70% o blant mewn addysg Gymraeg yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Gellir ehangu ar hyn, gan ddangos amserlen neu ddiagram clir sy'n dangos sut mae trochi yn y Gymraeg yn dechrau i'r holl blant o dair blwydd oed, gyda Saesneg yn cael ei gyflwyno tua phum mlwydd oed.
**Awgrymiadau Paratoi i'r Ysgol:** Cyngor syml a gweithredol ar baratoi plant (megis ymarfer gwisgo cotiau a defnyddio'r toiled ar gyfer plant sy'n mynd i'r ysgol gynradd, neu ddarllen gyda'i gilydd ar gyfer plant ysgol gynradd/uwchradd).
**Tystebau/Dyfyniadau:** Dyfyniadau byr, annogol gan rieni o gefndiroedd amrywiol. Mae holiaduron yn ddefnyddiol i gasglu adborth a phrofiadau bywyd go iawn gan deuluoedd sydd eisoes yn rhan o gymuned yr ysgol.
**Gwybodaeth Ymarferol Mae Rieni'n Chwilio amdani:** Gwybodaeth glir a hygyrch am fanylion dyddiol sy'n bwysig i deuluoedd wrth ddewis ysgol. Gwnewch hi'n hawdd i'w ffeindio ar eich gwefan ac yn y daflen i rieni.

- Gofal amgylchynol (megis clwb brecwast neu ddarpariaeth ôl-ysgol)
- Cefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a pherson cyswllt penodedig

**Dyddiadau Allweddol a Chamau Nesaf:** Dyddiadau ar gyfer diwrnodau agored, sesiynau chwarae a dysgu, neu unrhyw ddigwyddiadau cymunedol sy'n berthnasol i deuluoedd newydd. Darparwch fanylion cyswllt clir i'r rhieni wybod sut i wneud y cam nesaf.



# Croesawu Teuluoedd

Mae lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg yn chwarae rôl allweddol wrth gadw a chynnal y Gymraeg. Trwy greu amgylchedd cynhwysol a chefnogol i bawb, maent yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg ffynnu tra'n annog teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg i lwyddo hefyd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n hanfodol bod rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn teimlo'n gyfforddus ac yn cael cefnogaeth wrth ddewis y llwybr addysgol hwn i'w plant, drwy:

- **Cyfathrebu clir, agored a chefnogol.** Mae cyfarfodydd rheolaidd, gweithdai neu sesiynau gwybodaeth sy'n esbonio manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn ddefnyddiol, gan roi sicrwydd a'r cyfle i ofyn cwestiynau neu rannu pryderon. Mae deunyddiau cyfathrebu dwyieithog yn sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a roddir, gan hybu cynhwysiant.
- **Creu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar.** Mae ymddiriedaeth hirdymor a theimlad o gymuned yn tyfu pan fydd unigolion yn teimlo eu bod yn bwysig ac yn gallu mynd at aelodau o staff heb farnedigaeth.
- **Cefnogaeth ymarferol a sicrwydd.** Mae argymhellion ar gyfer apiau cyfieithu, adnoddau dwyieithog a ble i fynd am gymorth ychwanegol yn sicrhau bod rhieni di-gymraeg yn teimlo'n wybodus ac yn eu galluogi i roi arweiniad a chymorth i'w plentyn gartref.
- **Adeiladu cysylltiad a chymuned.** Bydd sefydlu rhwydwaith cefnogaeth rhieni lle gellir rhannu profiadau, awgrymiadau ac adnoddau yn sicrhau bod rhieni di-gymraeg yn teimlo'n hyderus. Mae profiad uniongyrchol o ddathlu diwylliant Cymru yn caniatáu i rieni weld a phrofi gwerth y Gymraeg.
- **Gwrando ar deuluoedd.** Mae adborth parhaus yn dangos bod yr ysgol yn gwerthfawrogi mewnbwn rhieni ac yn barod i addasu a datblygu i ddiwallu anghenion y plant a'u teuluoedd.

Trwy gymryd y camau hyn, gall ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg helpu teuluoedd i deimlo'n rhan o gymuned groesawgar. Pan fydd rhieni'n profi **perthynas, llawenydd, twf a chysylltiad** o fewn cymuned yr ysgol, mae hyder mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn tyfu'n naturiol.

- "You don't need Welsh" leaflet
- Templed llythyr croeso i deuluoedd newydd.



# You do not need to speak Welsh...

## to choose Welsh-Medium Education

Mae llawer o rieni'n poeni na fyddant yn gallu cefnogi eu plentyn os nad ydynt yn siarad Cymraeg. Rydym eisiau sicrhau nad yw hyn yn rhwystr i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg.

**Nid yw'r rhan fwyaf o deuluoedd yn siarad Cymraeg gartref. Nid ydych chi ar eich pen eich hun!**

Mae data cenedlaethol yn dangos bod y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod o gartrefi lle nad yw Cymraeg yn iaith gyntaf.

**Mae pob cyfathrebiad ar gael yn ddwyieithog, o wybodaeth gyffredinol i waith cartref.**

Mae staff yn cefnogi rhieni bob cam o'r ffordd ac eisiau i chi deimlo'n rhan o'r broses.

**Nid yw hi byth yn rhy hwyr i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg.**

Gall plant symud o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol adegau yn eu taith addysg. Mae gwasanaethau trochi hwyr ar gael ledled Cymru i helpu plant ddatblygu Cymraeg yn gyflym a magu hyder wrth ymgartrefu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Gall eich plentyn ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg hyd yn oed os ydynt yn dechrau'n hwyrach.

Mae cymorth ar gael os hoffech chi ddysgu Cymraeg hefyd. Gall dysgu ychydig o Gymraeg agor byd newydd i'r teulu cyfan.

Many parents worry they will not be able to support their child if they do not speak Welsh. We want to reassure families that this is not a barrier to choosing Welsh-medium education.

**Most families do not speak Welsh at home. You are not alone!**

National data shows that the majority of learners in Welsh-medium schools come from homes where Welsh is not the main language spoken.

**All communication is available bilingually, from general information to homework.**

Staff support parents every step of the way and want families to feel included.

**It is never too late to choose Welsh-medium education.**

Children can move from English-medium education into Welsh-medium education at different stages of their educational journey. Late immersion services are available across Wales to help children develop Welsh quickly and build confidence as they settle into Welsh-medium education. Your child can thrive in Welsh-medium education even if they begin later.

Support is also available if you would like to learn Welsh yourself. Learning even a little Welsh can open a new world for the whole family.

**Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ymwneud â chynhwysiant, nid allgáu.**

Welsh-medium education is about inclusion, not exclusion.

# Llawenydd

**Creu ymdeimlad o lawenydd yw'r cam cyntaf sy'n arwain at ddatblygu unigolion iach a hyderus.**

**Mae plant sy'n mwynhau dysgu yn fwy tebygol o ddatblygu gwydnwch, dewrder a syniad cadarnhaol ohonyn nhw eu hunain.**





# Adrodd Hanes Eich Ysgol



**Mae rhieni'n ymddiried mewn rhieni eraill a lleisiau plant.**

Mae rhieni’n cael eu dylanwadu’n sylweddol gan adolygiadau cyfoedion a phrofiadau teuluoedd eraill, gan fod y mewnwelediadau hyn yn helpu i siapio eu canfyddiadau a’u disgwyliadau. Mae’r agwedd gymunedol hon ar benderfyniadau’n tanlinellu pwysigrwydd creu amgylchedd cynorthwyol lle gall rhieni rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd, gan eu tywys tuag at y dewisiadau addysgol gorau i’w plant.

Mae ymchwil yn dangos, wrth benderfynu ar addysg eu plentyn, bod rhieni’n cael eu hysgogi gan amrywiaeth eang o ffactorau. Maent yn ystyried nid yn unig canlyniadau academaidd ond hefyd y profiad cyffredinol y mae ysgol neu leoliad yn ei gynnig i’w plentyn. Mae’r ymchwil yn dangos mae lleoliad/pellter ac awgrymiadau gan ffrindiau a theulu lleol fel y prif ffactorau sy’n dylanwadu ar ddewis ysgol.

Mae adnoddau wedi’u cynnwys y gellir eu defnyddio i adrodd eich stori, boed trwy lais disgybl neu safbwynt rhieni. Bydd rhannu’r rhain yn apelio at rieni a theuluoedd trwy ddarparu cyfraniadau personol go-iawn, sy’n berthnasol ac yn hygyrch.

Un ffordd o wneud hyn yw trwy ddarparu holiadur i rieni presennol sy’n eu hannog i rannu eu profiadau er mwyn helpu eraill. Mae rhannu storïau rhieni presennol gyda rhieni newydd yn helpu ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddangos yn wirioneddol beth sydd ganddynt i’w gynnig. Mae’n canolbwyntio ar dorri rhwystrau iaith, tynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd, ac arddangos cymuned groesawgar a chynorthwyol, hyd yn oed os nad yw rhieni’n siarad Cymraeg adref.

- Holiadur Rieni – ar gyfer rhieni presennol
- Holiadur Plentyn – Cynradd
- Holiadur Plentyn – Uwchradd

**Awgrym:**
Ystyriwch eich lleoliad eich hun... pa elfennau o fywyd ysgol sydd fwyaf tebygol o adael argraff barhaol?



# Adrodd Eich Stori Ysgol Parhad



Gall ysgolion ddefnyddio’r wybodaeth sy’n cael ei chasglu o holiaduron i greu straeon neu deithiau sy’n ysbrydoli eraill. Mae’r enghraifft isod yn dangos sut y gellir defnyddio dyfyniadau a adborth rhieni mewn posteri sy’n hyrwyddo’r ysgol yn gadarnhaol ac yn ei hysbrydoli:

- Enghraifft – Stori Rhiant

**Drwy ganolbwyntio ar lawenydd, perthyn, cysylltiad a thwf, gall rhieni ddychmygu sut y bydd profiad eu plentyn yn teimlo.**

Mae adborth gan rieni yn dangos bod gweld lluniau o ysgolion posibl yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr iddynt i realiti bywyd ysgol. Mae gweld lluniau o staff yr ysgol, plant yn chwarae ac yn rhyngweithio â’u hamgylchedd a gweithgareddau bob dydd yn rhoi syniad cliriach o brofiad eu plentyn. Mae hyn hefyd yn lleihau'r angen am lawer o wybodaeth ysgrifenedig, gan osgoi gormodedd o wybodaeth.

Wrth ddangos beth y gall addysg cyfrwng Cymraeg ei gynnig i deuluoedd, rhaid i luniau fynd y tu hwnt i safbwyntiau statig i ddal hanfod **cynefin – y lle rydym ni’n teimlo ein bod ni’n perthyn.**

Mae’r rhestr wirio hon wedi’i chynllunio i helpu ysgolion i ddogfennu eiliadau gwirioneddol o lawenydd, cysylltiad, perthyn a thwf.

- Canllaw lluniau a rhestr wirio ar gyfer ysgolion



# Holiadur i Rieni

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Diolch i chi am gymryd yr amser i lenwi'r holiadur hwn am daith eich plentyn ers dechrau yn ein hysgol. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i gasglu mewnwelediadau i brofiadau ein teuluoedd a byddem yn ddiolchgar am y cyfle i rannu eich llais gyda rhieni/gwarcheidwaid posibl yn y dyfodol.

Blwyddyn Ysgol y Plentyn/Plant: ..........................................................................................................
Hyd y cyfnod yn yr ysgol: ....................................................................................................................

A oeddech chi'n siarad Cymraeg gartref? (Oeddem / Nac oeddem)

Beth wnaeth i chi ddewis yr ysgol hon? .................................................................................
...........................................................................................................................................
...........................................................................................................................................

A oeddech chi'n poeni neu'n pryderu ar y dechrau? ......................................................................
...........................................................................................................................................
...........................................................................................................................................

Beth sydd wedi'ch synnu fwyaf? ..........................................................................................
...........................................................................................................................................
...........................................................................................................................................

Sut mae eich plentyn wedi ffynnu ers dechrau? .........................................................................
...........................................................................................................................................
...........................................................................................................................................

A fyddech chi'n argymell addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd eraill? Pam? ........................................
...........................................................................................................................................
...........................................................................................................................................

Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi eu rhannu?
.......................................................................................
...........................................................................................................................................
...........................................................................................................................................

Blwch caniatâd:
□ Rwy'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn ddienw ar wefan yr ysgol/cyfryngau cymdeithasol yr ysgol neu eu rhannu'n uniongyrchol gyda rhieni newydd.

**Diolch yn fawr iawn.**

# Beth rwy'n ei hoffi am fy ysgol

Annwyl rieni / gwarcheidwaid,

Diolch i chi am gefnogi'ch plentyn i lenwi'r holiadur hwn am ei ysgol. Rydym ni'n gwerthfawrogi'r cyfle i gasglu mewnwelediadau i brofiadau ein teuluoedd a byddem yn ddiolchgar am y cyfle i rannu lleisiau amrywiol gyda rhieni / gwarcheidwaid posibl yn y dyfodol.

[Enw - Dewisol]: ..........................................................................................................................
Dosbarth/ Blwyddyn:.....................................................................................................................

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw .........................................................................................................
.......................................................................................................................................................
.......................................................................................................................................................

Rwy'n teimlo'n hapus yn yr ysgol pan ..........................................................................................
.......................................................................................................................................................
.......................................................................................................................................................

Rwy'n hoffi siarad Cymraeg oherwydd ...........................................................................................
.......................................................................................................................................................
.......................................................................................................................................................

Un peth y byddwn i'n ei ddweud wrth ddisgybl newydd yw ...........................................................
.......................................................................................................................................................
.......................................................................................................................................................

Rhywbeth arbennig am fy ysgol ....................................................................................................
.......................................................................................................................................................
.......................................................................................................................................................

Sylwadau neu luniau ychwanegol:

Blwch caniatâd:

□ Rwy'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn ddienw ar wefan yr ysgol/cyfryngau cymdeithasol neu gael ei rhannu'n uniongyrchol gyda disgyblion newydd a'u teuluoedd.

**Diolch yn fawr iawn.**

# Ymgartrefu yn yr Ysgol Uwchradd

Diolch am lenwi'r holiadur hwn am eich taith o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i gasglu cipolwg ar brofiadau ein disgyblion a byddem yn ddiolchgar am y cyfle i rannu eich barn gyda darpar ddisgyblion yn y dyfodol.

[Enw - Dewisol]: ..............................................................................................................................
Dosbarth/ Blwyddyn: ......................................................................................................................

Fy hoff bwnc yn yr ysgol yw ..........................................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................

Beth helpodd chi i symud i'r ysgol uwchradd? ...............................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................

Sut mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog wedi eich helpu chi?..................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................

Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i ddisgyblion iau?...........................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................

Rhywbeth arbennig am fy ysgol i:...... ............................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................

Unrhyw sylwadau eraill:....................................................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................
..................................................................................................................................................

Blwch caniatad:
□ Rwy'n caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei gynnwys yn ddienw ar wefan yr ysgol/cyfryngau cymdeithasol neu gael ei rhannu'n uniongyrchol gyda disgyblion newydd a'u teuluoedd.



**Diolch yn fawr iawn.**

# Ein Taith Addysg Gymraeg

## Teimladau cychwynnol

"Fel teulu sydd ddim yn siarad Cymraeg, roeddem yn nerfus ar y dechrau ac yn pryderu y byddai'r ferch yn teimlo allan ohoni neu'n cael trafferth dal i fyny efo'r gwaith ysgol."

**"Ni wedi gwneud ffrindiau yn barod ac yn teimlo bod y gymuned yn groesawgar iawn."**

## Ein Profiad

"O'r diwrnod cyntaf yn y Cylch Meithrin, cawsom groeso gwych. Doedden ni ddim yn teimlo allan o le na'n wahanol o gwbl. Esboniodd pawb bopeth i ni ac mae'r holl gyfathrebu wedi bod yn ddwyieithog, felly ro'n ni'n teimlo bod ni wedi cael yr holl wybodaeth o'r dechrau."

**"Roedd y ferch yn dod adref yn canu caneuon Cymraeg ac yn dysgu geiriau newydd i ni'n syth bin."**

## Goresgyn Ofnau

"Dyn ni wedi cael llwyth o gymorth ers cychwyn, gan gynnwys apiau, adnoddau, a chyngor i ni fel rhieni, er nad ydym yn siarad Cymraeg ein hunain. Mae'r ferch wedi dechrau dysgu *letter sounds* a ni wedi bod yn defnyddio'r ap Tric a Chlic i'w helpu hi."

**"...Ni'n dau wedi dysgu cymaint drwyddi yn barod!"**

## Beth Rydyn Ni'n Ei Garu

"Mae gweld ein merch yn ffynnu mewn amgylchedd mor gyfeillgar yn wych ac mae hi wedi gwneud gymaint o ffrindiau! Mae'n anhygoel gweld hi'n datblygu hyder a theimlad o falchder o fod yn Gymraes!"

**"Os ydych chi'n ystyried addysg gyfrwng Gymraeg, ewch amdani! Bydd eich plentyn yn dysgu'r iaith yn sydyn, a byddwch ffeindio cymuned gefnogol sy'n barod i'ch helpu bob cam o'r ffordd."**

# Canllaw Lluniau

**Dangos Perthyn:**

- ☐ **Grwpiau bach** – Gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau agos yn dangos cefnogaeth, cydweithio a chysylltiad cymdeithasol.
- ☐ **Amrywiaeth** – Mae cynrychiolaeth yn hanfodol. Dangoswch eich cymuned gynhwysol drwy rannu lluniau o unigolion o gefndiroedd a sefyllfaoedd amrywiol.
- ☐ **Amgylchedd cartrefol** – Dangos plant yn mwynhau ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gofod nhw yn dangos eu bod yn gyfforddus; fel swatio mewn cornel ddarllen neu ofalu am wely llysiau'r dosbarth.

**Dal Llawenydd:**

- ☐ **Chwarae prysur a gweithgar** – Eiliadau blêr a llawen fel mwynhau profiadau synhwyraidd gyda dŵr, chwerthin a rhedeg o gwmpas yr ysgol neu dringo ar offer chwarae.
- ☐ **Dal creadigrwydd** – Y canolbwyntio a'r balchder yn ystod perfformiad cerddorol, drama neu gelf. Bydd lluniau o'r Eisteddfod yn berffaith!
- ☐ **Gwên wirioneddol** – mae mynegiant wir naturiol yn codi emosiwn go iawn yn fwy na phosau gorfodol neu wedi'u gor-gynllunio.

**Delweddu Twf:**

- ☐ **Balchder yn eu gwaith** – Dangos prosiectau a chreadigaethau'r dosbarth, efallai llun o grŵp o blant o flaen murlun maent wedi ei greu neu'n dal cerfluniau a wnaethant.
- ☐ **Technoleg** – Dangos plant yn defnyddio tabledi, Chromebooks neu iPads yn hyderus, gan ddangos addysg flaengar.
- ☐ **Taith 'Gadael' Disgyblion** – Dathlu gwasanaeth ffarwelio blwyddyn 6 neu baru llun plentyn blwyddyn 6 hyderus gyda llun plentyn dosbarth derbyn i ddangos twf mewn ffordd weledol.

**Dangos Cysylltiad:**

- ☐ **Rhyngweithio Staff-Disgybl** – Dal eiliad ysgafn rhwng athro a disgybl i ddangos y bondiau dynol sy'n gwneud i ysgol deimlo fel ail deulu.
- ☐ **Cefnogi ei gilydd** – Tynnu llun o blant hŷn yn darllen i blant iau neu'n helpu gyda gwahanol weithgareddau.
- ☐ **Digwyddiadau cymunedol** – Lluniau o gyfarfodydd, sioeau, Eisteddfodau, ffeiriau ac yn y blaen i ddangos cysylltiad cymunedol yn yr ysgol a chryfder a bywiogrwydd yr ysgol.

**Ystyriaethau technegol a diogelwch:**

**Peidiwch byth â defnyddio llun heb ganiatâd clir gan rieni.**
**Dilynwch bolisi "enwau dim lluniau / lluniau dim enwau" i ddiogelu preifatrwydd plant.**



# Cymuned a Diwylliant



Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn anelu at greu amgylchedd cynhwysol ac ymgysylltiol sy'n apelio at bob teulu, gan feithrin teimlad cryf o gymuned a hunaniaeth. Gellir cryfhau ymgysylltiad drwy ystyried yn ofalus sut y gellir dathlu gwahanol ddiwylliannau ochr yn ochr â arferion a thraddodiadau Cymreig. Mae dangos lleisiau amrywiol ar draws cymuned yr ysgol a datblygu strategaethau allgymorth synhwyrol yn helpu i ymgysylltu â nifer fawr o deuluoedd, gan gyfoethogi amgylchedd yr ysgol.

**Gall addysg cyfrwng Cymraeg weithredu fel pont rhwng diwylliannau, lle mae'r iaith yn ein cysylltu ac yn dod yn offeryn cydweithredol ar gyfer teimlad o berthyn.**

Ynghyd â'r adnoddau cymorth sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn hwn, dyma'r prif bwyntiau i'w hystyried i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei hyrwyddo yn apelio at *bawb*:

- **Dealltwriaeth Ddiwylliannol** – Rhannu deunyddiau sy'n adlewyrchu etifeddiaeth gyfoethog Cymru.
- **Cyfathrebu hygyrch ac amlieithog** – Dwyieithrwydd bob amser i sicrhau hygyrchedd, gan gynnwys unrhyw ieithoedd eraill a siaradir gartref.
- **Cynrychiolaeth Gymunedol** – Dangos lleisiau amrywiol o fewn hunaniaeth Gymraeg ac adlewyrchu cefndiroedd amrywiol disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau cynrychiolaeth.

Mae arolygon rheolaidd yn caniatáu i ysgolion a lleoliadau gasglu adborth gwerthfawr a datblygu strategaethau allgymorth wedi'u targedu o fewn eu carfan leol. Mae hyn yn eu galluogi i ymgysylltu â gwahanol grwpiau cymunedol. Mae'r ymgysylltiad hwn gyda theuluoedd yn helpu i adeiladu perthnasoedd a theimlad o berthyn. Yn yr un modd, mae'r canlynol yn bwysig:

- Cydweithio gyda sefydliadau lleol fel llyfrgelloedd neu grwpiau cymunedol, creu digwyddiadau ar y cyd a meithrin teimlad o undod.
- Ymgysylltu â busnesau lleol drwy raglenni cydweithredol fel cystadlaethau chwaraeon neu noddi, gan gryfhau cysylltiadau cymunedol a gweladwyedd.
- Cynnal digwyddiadau sy'n gwahodd teuluoedd i gymryd rhan fel sesiynau stori, gweithdai garddio a chyfleoedd i wirfoddoli a bod yn rhan o'r gymuned.

Rhestr Wirio Ymgysylltu Cymunedol

# Rhestr Wirio Ymgysylltu Cymunedol

Ar gyfer arweinwyr cylchoedd, staff ysgol, llywodraethau, cymdeithasau rhieni-athrawon ac awdurdodau lleol. Mae'r rhestr wirio hon yn darparu meini prawf syml i sicrhau bod darpariaeth ac allgymorth yn wirioneddol gynhwysol.

## Mae Cynrychiolaeth yn Bwysig

- [ ] Sicrhewch fod arwyddion croeso ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn gynhwysol o ran unrhyw ieithoedd eraill sy'n cael eu siarad yn gyffredin yn y gymuned.
- [ ] Sicrhewch fod arwyddion croeso yn hygyrch i'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol, er enghraifft drwy braille neu symbolau gweledol clir.
- [ ] Ystyriwch ddarparu canllawiau gweledol ac infograffeg i'r rhai nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg na Saesneg eto, neu i ddysgwyr niwroamrywiol.
- [ ] Gwiriwch fod y delweddau a'r deunyddiau hyrwyddo a ddefnyddir yn cynrychioli cymuned amrywiol o bobl. Sicrhewch eu bod yn cynnwys teuluoedd o gefndiroedd ethnig a chymdeithasol-economaidd amrywiol.

## Meddyliwch yn Lleol!

- [ ] Ystyriwch arddangos deunyddiau hyrwyddo mewn lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd, lleoedd addoli, canolfannau cymunedol, caffis a siopau lleol.
- [ ] Ystyriwch gydweithredu gyda grwpiau cymunedol lleol, llyfrgelloedd, caffis ac ati i sicrhau cyrhaeddiad cymunedol ehangach.
- [ ] Archwiliwch am wyliau neu ddigwyddiadau diwylliannol amrywiol y gellid eu dathlu ochr yn ochr â thraddodiadau Cymreig fel Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, Eid a Diwali.
- [ ] Meddyliwch am wahodd unigolion diddorol o'r gymuned ehangach i ddod i siarad, rhannu gwybodaeth a chymryd rhan mewn bywyd bob dydd yr ysgol.

**Bydd ystyried y pwyntiau hyn yn annog cysylltiadau gwirioneddol â'r gymuned ehangach ac yn cyfrannu'n bositif at deimlad o gynefin a pherthyn.**

# Cynefin – Man i Berthyn

## Twf

**Creu ymdeimlad o thwf yw'r cam cyntaf sy'n arwain at ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog.**

**Mae cynnydd, her a datblygu sgiliau yn meithrin twf academaidd a phersonol.**





# Taith Addysg Cyfrwng Cymraeg



I lawer o rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg, ysgolion a lleoliadau addysg yw'r cysylltiad ystyrlon cyntaf â'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan helpu teuluoedd i ddatblygu'r ymdeimlad pwysig hwnnw o gynefin — perthyn.

Mae data diweddar yn dangos nad oedd llawer o rieni yn ymwybodol o'r cyfleoedd i ddechrau'n gynnar drwy grwpiau babanod Cymraeg a chynulliadau cymunedol. Mae'r math hwn o drochi cynnar yn cael ei weld yn gadarnhaol gan rieni ac yn aml yn bwysicach iddynt na chyfleoedd pellach yn y dyfodol megis prifysgol neu yrfa.

Yn aml bydd rhieni sy'n disgwyl plentyn yn cysylltu â meithrinfeydd a lleoliadau cynradd wrth iddynt ddechrau cynllunio'r dyfodol y maent yn gobeithio ei greu i'w plentyn.

**Cefnogi plant sy'n ymuno'n hwyrach**

Er bod trochi cynnar (3–7 oed) yn digwydd yn naturiol yn yr ystafell ddosbarth, mae rhai plant yn ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg yn nes ymlaen.

Mewn achosion o'r fath, gall ysgolion weithio gyda gwasanaethau trochi rhanbarthol i gefnogi plant i ddatblygu eu Cymraeg ac ymgartrefu ym mywyd yr ysgol.

Mae'r dulliau hyn wedi'u cynllunio i feithrin hyder, cefnogi dealltwriaeth a helpu plant i ymgartrefu ac integreiddio'n llwyddiannus.




**Mae'r <u>infograffeg</u> taith addysg cyfrwng Cymraeg, o enedigaeth hyd at fod yn oedolyn, yn galluogi rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus a chymryd y camau priodol tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.**



# Taith Addysg Gymraeg: Cyfnodau Pontio



Gall cyfnodau pontio deimlo'n heriol i deuluoedd — ond gyda'r gefnogaeth gywir, maent yn gamau cadarnhaol a phwysig yn nhaith plentyn.

- **O ofal plant i'r ysgol gynradd -** Gall rhieni boeni am iaith, disgwyliadau dysgu a gwneud ffrindiau.
- **O'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd -** Gall amgylcheddau mwy deimlo'n llethol, gyda threfn newydd, pynciau a chydberthnasau cymdeithasol.
- **Symud rhwng ysgolion -** Gall newid fod yn emosiynol, felly mae cyfathrebu clir a chefnogaeth yn hanfodol.

Gall ysgolion gefnogi teuluoedd drwy gyfathrebu'n gynnar, ailadrodd negeseuon allweddol, a darparu pwyntiau cyswllt clir.

- Taflen sicrwydd pontio
- Taflen crynodeb llwybrau gyrfa

**Mae negeseuon clir a chyson am fanteision hirdymor addysg Gymraeg yn helpu teuluoedd i deimlo'n hyderus am bontio.**
**Mae'r adnoddau hyn yn dangos sut mae'r daith yn cefnogi twf, perthyn, llawenydd a chysylltiad drwy gydol addysg plentyn.**



# Taith Addysg Gymraeg
# The Welsh-Medium Education Journey

**Mae'r daith hon yn cynnwys blynyddoedd cynnar, gofal plant ac addysg statudol.**
This journey includes early years, childcare and statutory education.

Mae pob cyfathrebiad yn ddwyieithog
*School communication is available bilingually.*

## 0-3

**Profiadau Blynyddoedd Cynnar**
Cymraeg i Blant
Grwpiau Ti a Fi
Cylchoedd Meithrin
Gweithgareddau cymunedol

**Early Years Experiences**
Cymraeg i Blant
Ti a Fi Groups
Welsh-medium playgroups
Community activities

## 3–7

**Trochi Cymraeg**
Mae plant yn dysgu drwy'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae dysgu drwy chwarae yn meithrin hyder yn yr iaith.

**Welsh Immersion**
Children learn through Welsh from the beginning. Play-based learning builds confidence in the language.

Cymorth trochi ar gael.
*Immersion support is available.*

## 7+

**Dwyieithrwydd yn tyfu**
Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol.
Y Gymraeg yn parhau i fod y prif iaith ddysgu.

**Growing bilingual skills**
English is introduced formally.
Welsh remains the main language of learning.

## 11–16

**Ysgol Uwchradd Gymraeg**
Mae dysgwyr yn parhau â'u haddysg drwy'r Gymraeg wrth feithrin sgiliau dwyieithog cryf.

**Welsh-medium secondary**
Learners continue their education through Welsh while gaining strong bilingual skills.

## 16+

**Cyfleoedd y Dyfodol**
Addysg Bellach
Prentisiaethau
Prifysgol
Gyrfaoedd
*Mae sgiliau dwyieithog yn agor drysau ledled Cymru a thu hwnt.*

Cymraeg i Bawb

**Future opportunities**
Further Education
Apprenticeships
University
Careers
*Bilingual skills open doors across Wales and beyond.*

**Mae addysg Gymraeg yn cefnogi perthyn, llawenydd, twf a chysylltiad.**
Welsh-medium education supports belonging, joy, growth and connection.

# Symud i Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg




Mae symud ymlaen i ysgol uwchradd Gymraeg yn gam cadarnhaol a naturiol sy'n diogelu parhad, hyder a chyfleoedd.

**Parhad Academaidd**

Mae Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio fel taith barhaus 3–16, sy'n golygu bod dysgu'n adeiladu'n esmwyth o'r cynradd i'r uwchradd.

- Mae dysgu ym Mlwyddyn 7 yn adeiladu'n uniongyrchol ar Flwyddyn 6
- Dilynir yr un cwricwlwm mewn ysgolion Saesneg, Cymraeg a dwyieithog
- Mae cymorth trochi ychwanegol ar gael lle bo angen

**Cymorth emosiynol**

Rydym yn deall y gall symud i'r ysgol uwchradd deimlo fel newid mawr i blant a theuluoedd.

- Ffocws cryf ar les a chefnogaeth emosiynol
- Diwrnodau pontio i feithrin hyder a chynefindra
- Systemau cyfeillio i gefnogi perthnasoedd
- Cyfathrebu parhaus gyda theuluoedd

**Cynefin — Perthyn**

Mae ysgolion uwchradd Cymraeg yn adeiladu ymdeimlad cryf o hunaniaeth, perthyn a chymuned sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

- Amrywiaeth eang o glybiau a gweithgareddau
- Cyfleoedd diwylliannol a chwaraeon
- Ymdeimlad cryf o falchder yn yr iaith a'r gymuned

**Mae dewis addysg Gymraeg uwchradd yn cefnogi llwyddiant hirdymor. Mae disgyblion yn ennill yr un cymwysterau tra'n datblygu sgiliau dwyieithog gwerthfawr sy'n agor drysau i gyfleoedd, gyrfaoedd a hyder yn y dyfodol.**

# Llwybrau Gyrfa

**Mae addysg Gymraeg yn agor drysau, gan roi'r un cymwysterau i'ch plentyn, gyda mantais ychwanegol sgiliau dwyieithog am oes.**

**I ble gall addysg Gymraeg arwain?**
Mae addysg Gymraeg yn dilyn yr un cwricwlwm ac yn arwain at yr un cymwysterau ag addysg Saesneg. Ar yr un pryd, mae dysgwyr yn datblygu sgiliau dwyieithog hyderus sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyfwy ledled Cymru a thu hwnt.

Mae tystiolaeth yn dangos bod disgyblion mewn addysg Gymraeg yn cyflawni canlyniadau tebyg neu well, tra hefyd yn elwa o ddwyieithrwydd.

**Gyrfaoedd a chyfleoedd**
Mae'r Gymraeg yn cael ei gwerthfawrogi fwyfwy mewn nifer o yrfaoedd, gan gynnwys:

- Addysg
- Iechyd
- Gwasanaethau cyhoeddus
- Cyfryngau a diwydiannau creadigol
- Busnes a llywodraeth leol

**Gall bod yn ddwyieithog agor drysau i ystod ehangach o gyfleoedd a chryfhau cyflogadwyedd hirdymor.**

**Edrych i'r dyfodol**
Ar ôl yr ysgol uwchradd, mae dysgwyr yn symud ymlaen i Safon Uwch, prentisiaethau, addysg bellach neu brifysgol, yn union fel unrhyw ddisgybl arall. Mae eu sgiliau dwyieithog yn rhoi manteision ychwanegol gan agor cyfleoedd yng Nghymru a thu hwnt.

**Manteision gwybyddol dwyieithrwydd**

Hyblygrwydd gwybyddol
Meddwl creadigol gwell
Sensitifrwydd cyfathrebu
Gwell datrys problemau

Gwell ymwybyddiaeth ffonetig
Hyblygrwydd ieithyddol
Cof geiriol cryfach
Gwell gallu i wneud nifer o dasgu ar yr un pryd

Mae'r galluoedd hyn yn meithrin ymwybyddiaeth feta-ieithyddol gryfach, gan ei gwneud hi'n haws i ddysgwyr dwyieithog ddysgu ieithoedd ychwanegol ac agor drysau i gyfleoedd pellach yng Nghymru ac yn rhyngwladol.



*Ffynonellau: Estyn; Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru; ymchwil ar wybyddiaeth ddwyieithog (Bialystok).*



# Cynllun Hyrwyddo Enghreifftiol ar Gyfer Ysgolion a Lleoliadau



## Cynllun Cychwyn Syml – 3 Mis

Cynigir yr amlinelliad isod fel un dull posibl ar gyfer ysgolion neu leoliadau sy'n lansio neu'n adnewyddu gweithgaredd hyrwyddo. Nid yw wedi'i fwriadu fel rhestr wirio na disgwyliad, ond fel cyfeiriad y gall ysgolion ei addasu, ei symleiddio neu dynnu ohono yn ôl yr angen.

### Mis 1 – Sylfeini

**Amcan: Bod yn glir, yn weladwy ac yn gyson.**

**Camau**

- Adolygu hafan y wefan a sicrhau bod gwybodaeth bwysig yn hawdd ei gweld.
- Diweddaru prosbectws, taflenni neu ddeunyddiau croeso i deuluoedd newydd.
- Sicrhau bod arwyddion a derbynfa'r ysgol yn groesawgar ac yn ddwyieithog.
- Adolygu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol i sicrhau cysondeb mewn negeseuon a brandio.
- Creu cynllun syml ar gyfer beth fydd yn cael ei rannu ar-lein dros y tymor.
- Casglu lluniau o fywyd bob dydd yr ysgol, gweithgareddau a dysgu.

**Allbynnau**

- Gwefan fwy clir a chyfredol
- Deunyddiau croeso wedi'u diweddaru
- Negeseuon cyson ar draws cyfryngau cymdeithasol
- Banc o luniau ar gyfer postiadau a hyrwyddo
- Templedi syml ar gyfer cylchlythyrau, e-byst neu bostiadau

### Mis 2 – Gwelededd

**Amcan: Cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad.**

**Camau**

- Rhannu postiadau wythnosol ar gyfryngau cymdeithasol.
- Rhannu straeon neu luniau sy'n dangos bywyd bob dydd yr ysgol.
- Cyhoeddi profiad neu dysteb gan riant presennol.
- Cynnal bore agored, sesiwn chwarae neu daith rithwir.
- Annog teuluoedd presennol i rannu gwybodaeth am yr ysgol gyda eraill.

**Allbynnau**

- Mwy o weithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol
- Mwy o luniau a straeon yn dangos bywyd ysgol
- Tysteb rhiant i'w defnyddio ar-lein neu mewn taflenni
- Lluniau a gwybodaeth o ddigwyddiadau ysgol
- Cynnydd mewn ymholiadau neu ymgysylltiad teuluoedd



# Cynllun Hyrwyddo Enghreifftiol - Parhad



**Mis 3 – Ymgysylltu â'r Gymuned**

**Amcan: Adeiladu ymddiriedaeth ac eiriolaeth.**

### Camau

- Rhannu llwyddiannau dysgwyr.
- Cyhoeddi "sbotolau staff".
- Lansio neges cyfeirio rhieni.
- Cynnal arolwg syml (pam dewisodd teuluoedd yr ysgol).
- Cysylltu ag un busnes neu bartner cymunedol lleol.

### Allbynnau

- 1–2 stori neu bost llwyddiant disgyblion bob wythnos
- 1 post "sbotolau staff"
- Crynodeb byr o adborth rhieni
- Partneriaeth gymunedol newydd neu weithgaredd ar y cyd
- Lluniau neu gynnwys o ddigwyddiad cymunedol
- Cynnydd mewn ymgysylltiad ar gyfryngau cymdeithasol neu bresenoldeb mewn digwyddiadau

## Cylch Hyrwyddo Blynyddol

Efallai y bydd rhai ysgolion yn dewis canolbwyntio ar un elfen yn unig; efallai y bydd eraill yn gweld dull ysgafn, cylchol yn ddefnyddiol drwy gydol y flwyddyn. Dylai'r amseru, y raddfa a'r cyflymder adlewyrchu capasiti staff eich ysgol, y cyd-destun lleol a'r blaenoriaethau presennol. Er enghraifft:

**Tymor 1 – Ymwybyddiaeth a Recriwtio**

- Cynnal diwrnodau agored neu ymweliadau i deuluoedd newydd
- Rhannu prosbectws, taflenni a gwybodaeth glir ar-lein
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu bywyd bob dydd yr ysgol
- Rhannu straeon a lluniau sy'n dangos perthyn, llawenydd a dysgu
- Adolygu a diweddaru'r wefan i sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd i'w ffeindio

**Tymor 2 – Ymgysylltu a Chadw**

- Gweithdai neu sesiynau gwybodaeth i rieni newydd a phresennol
- Rhannu llwyddiannau a phrofiadau disgyblion drwy luniau a straeon
- Cynnal neu gefnogi digwyddiadau cymunedol lleol
- Rhannu tystebau rhieni canol blwyddyn i adeiladu hyder teuluoedd newydd
- Defnyddio cylchlythyrau i dynnu sylw at fywyd ysgol, gweithgareddau a llwyddiannau

**Tymor 3 – Dathlu ac Enw Da**

- Dathlu cyflawniadau a llwyddiannau disgyblion
- Rhannu crynodeb o effaith a gweithgareddau'r flwyddyn
- Tynnu sylw at brofiadau disgyblion sy'n symud ymlaen
- Dechrau hyrwyddo ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf
- Adolygu beth weithiodd yn dda a mireinio'r dull hyrwyddo

**Mae rhythm cynaliadwy yn bwysicach na chyfaint neu amledd.**



# Rolau i Staff a Llywodraethwyr



**Mae cyfrifoldebau clir yn sicrhau nad yw hyrwyddo yn dod yn "waith neb".**

## Pennaeth / Arweinydd y Lleoliad

- Gosod gweledigaeth a naws
- Cymeradwyo negeseuon allweddol
- Cynrychioli'r ysgol neu'r lleoliad yn gyhoeddus

## Arweinydd Gweinyddol / Cyfathrebu

- Rheoli'r wefan a chyfryngau cymdeithasol
- Cydlynu calendr cynnwys
- Olrhain data ymgysylltu

**Awgrym**
Penodwch un person i arwain hyrwyddo, mae cyfrifoldeb ar y cyd yn gweithio orau pan fo rhywun yn atebol.

## Athrawon / Ymarferwyr

- Rhannu straeon dosbarth neu ddysgu
- Rhannu enghreifftiau o lwyddiant dysgwyr
- Annog tystiolaethau rhieni

## Llywodraethwyr / Pwyllgorau Rheoli

- Gweithredu fel llysgenhadon
- Rhannu cynnwys o fewn eu rhwydweithiau
- Adolygu data effaith yn flynyddol
- Cefnogi partneriaethau cymunedol





# Mesur Ymgysylltiad ac Effaith



**Mae adolygu'n rheolaidd yn helpu ysgolion i ddeall beth sy'n gweithio ac i wneud gwelliannau hyderus.**

## Mesurau syml i'w holrhain

**Gwefan**
- Nifer yr ymweliadau â thudalennau
- Amser ar dudalen
- Archebion dyddiau agored

**Derbyniadau**
- Ymholiadau
- Ceisiadau
- Cyfradd trosi

**Cyfryngau Cymdeithasol**
- Cyrhaeddiad
- Cyfradd ymgysylltu
- Rhannu
- Sylwadau

**Cymuned**
- Presenoldeb mewn digwyddiadau
- Adborth boddhad rhieni
- Nifer y cyfeiriadau

**Pam mae hyn yn bwysig**

Mae olrhain gwybodaeth syml yn helpu ysgolion i ddeall beth sy'n gweithio, adeiladu ymddiriedaeth gyda theuluoedd a chryfhau cofrestriad hirdymor.

# Cysylltiad

**Creu ymdeimlad o gysylltiad yw'r cam cyntaf sy'n arwain at ddatblygu cyfranwyr mentrus a chreadigol.**

**Mae cydweithio, cyfathrebu a chysylltiad diwylliannol yn sail i greadigrwydd a chyfraniad.**





# Cefnogi Teleuoedd



**Mae argraffiadau cyntaf yn hynod bwysig. Gall profiadau cadarnhaol a chroesawgar — wyneb yn wyneb ac ar-lein — helpu teuluoedd i deimlo'n hyderus wrth ddewis addysg Gymraeg.**

**Ymgysylltu wyneb yn wyneb**

Gall croeso cynnes wneud gwahaniaeth mawr. Mae staff cyfeillgar ac agos-atoch yn helpu teuluoedd i deimlo'n gyfforddus, gofyn cwestiynau a dechrau dychmygu eu plentyn yn y lleoliad.

- **Dyddiau Agored -** Mae dyddiau agored yn rhoi cyfle i deuluoedd brofi amgylchedd yr ysgol a gweld sut y gall eu plentyn berthyn a ffynnu.
- **Ymweliadau a galw heibio anffurfiol -** Mae gwahodd teuluoedd i ymweld ar wahanol adegau, gan gynnwys ar ôl ysgol, yn cynnig hyblygrwydd ac yn meithrin ymddiriedaeth drwy ryngweithio personol.
- **Grwpiau Ti a Fi neu debyg -** Mae cysylltu â grwpiau lleol yn helpu teuluoedd i fagu hyder, clywed y Gymraeg a theimlo'n rhan o gymuned ehangach.
- **Digwyddiadau cymunedol -** Mae cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol yn cynyddu gwelededd ac yn helpu ysgolion i gysylltu â theuluoedd y tu hwnt i furiau'r ysgol.

**Adnoddau defnyddiol:**

- Rhestr wirio cynllunio diwrnod agored
- Poster golygadwy ar gyfer diwrnod agored





# Cefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)



**Mae ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg wedi ymrwymo i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc i deimlo'n ddiogel, wedi'u cynnwys ac yn gallu ffynnu.**

Mae cymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda theuluoedd yn rhan o'r penderfyniadau a chymorth wedi'i deilwra drwy Gynllun Datblygu Unigol.

Gall dewis ysgol godi cwestiynau i rieni a gofalwyr, ond mae addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn cynhwysol a chefnogol, gyda chymorth priodol ar gael i bob dysgwr.

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn darparu cymorth ADY yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys adnabod anghenion yn gynnar, gweithio'n agos gyda theuluoedd, rhoi strategaethau priodol ar waith, ac adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Mae'r cymorth bob amser wedi'i deilwra i'r unigolyn, gan adlewyrchu cryfderau ac anghenion pob plentyn.

**Gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd**

Mae perthnasoedd agored a chryf rhwng ysgolion a theuluoedd yn allweddol i ddarparu cymorth effeithiol.

Lle bo'n briodol, gall rhieni a gofalwyr:

– siarad gyda Chydlynydd ADY yr ysgol
– gofyn cwestiynau am y cymorth sydd ar gael
– rhannu gwybodaeth am anghenion eu plentyn

**Mae cyfathrebu parhaus yn helpu i sicrhau bod y cymorth yn gyson, yn gydlynol ac yn rhoi sicrwydd i deuluoedd.**



# Cefnogi Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)



**Gall plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg a manteisio’n llawn arni.**

**Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg**

Gall plant ag ADY gael mynediad llwyddiannus at addysg cyfrwng Cymraeg a chael budd ohoni.

Gall ysgolion ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi dysgu, gan gynnwys:

- cymhorthion gweledol ac ymarferol
- dulliau addysgu wedi’u gwahaniaethu
- cefnogaeth mewn grwpiau bach neu’n unigol lle bo angen

Darperir cyfathrebu’n ddwyieithog er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn teimlo’n wybodus ac yn cael eu cynnwys.

**Ymuno ar wahanol adegau**

Mae rhai plant yn ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg yn hwyrach yn eu taith ysgol. Mewn achosion o’r fath, gall ysgolion weithio gyda gwasanaethau trochi rhanbarthol i gefnogi datblygiad iaith a helpu plant i ymgartrefu’n hyderus mewn bywyd ysgol.

## Tawelwch meddwl i deuluoedd

Mae taith pob plentyn yn unigryw. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnig amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae plant yn cael eu cefnogi i ddatblygu hyder, llesiant ac ymdeimlad cryf o berthyn.





# Cefnogi Teuluoedd Arlein



Gall defnyddio iaith gadarnhaol a chalonogol ar-lein, ynghyd â delweddau perthnasol, wella cyfathrebu'n sylweddol. Mae cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ysgolion ymhlith y ffyrdd mwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth a chreu diddordeb.

**Mae argraffiadau cyntaf yn hynod bwysig a gallant ddylanwadu'n gryf ar benderfyniadau teuluoedd. Gellir creu argraffiadau cadarnhaol a chroesawgar wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan helpu teuluoedd i deimlo'n hyderus wrth gymryd eu cam cyntaf tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.**

- **Cyfryngau Cymdeithasol -** Bydd diweddariadau rheolaidd a deniadol sy'n dangos sut beth yw bywyd ysgol *mewn gwirionedd* yn rhoi blas i rieni o natur pob ysgol mewn amser real, gan greu cysylltiadau dilys ac ystyrlon. Mae elfennau rhyngweithiol megis pleidleisiau a sesiynau Holi ac Ateb yn annog cyfranogiad a phrofiadau a rennir.

- **Gwefannau** - Mae gwefannau clir a dwyieithog yn galluogi ysgolion a lleoliadau i gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd hygyrch a chysurlon i deuluoedd modern.

**Mae'r adnoddau canlynol ar gael i gefnogi cyfathrebu ar-lein:**

- Pethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud ar wefannau
- Templedi postiadau cyfryngau cymdeithasol
- Banc capsiynau (dwyieithog)

**Awgrym**
Postiwch un foment go iawn o'ch ysgol bob wythnos — gwên, stori neu lwyddiant.



# Rhestr Wirio Diwrnod Agored

Mae cynnal Diwrnodau Agored yn ffordd effeithiol o groesawu rhieni newydd, dangos cryfderau'r ysgol a thrafod cwestiynau neu bryderon. Ystyriwch eich pwyntiau gwerthu unigryw a beth hoffech i deuluoedd ei weld neu glywed.

Sicrhewch fod eich hyrwyddiad yn amrywiol: gwefan, cyfryngau cymdeithasol, taflenni meithrinfeydd, a geiriau gan rieni presennol. Mae'r ysgogiadau canlynol yn adlewyrchu'r pedair thema sy'n sail i'r pecyn adnoddau hwn:

- ☐ A yw arddangosfeydd yn dathlu gwaith pob plentyn, hyd yn oed pan fo'n amherffaith neu'n archwiliadol?
- ☐ A yw llyfrau, arddangosfeydd a deunyddiau yn adlewyrchu diwylliannau, ieithoedd a galluoedd amrywiol? (Cyfeiriwch at y Rhestr Wirio Ymgysylltu â'r Gymuned – dolen)
- ☐ A oes cymorth ystyriol ar waith i helpu plant i deimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal, megis dillad sbâr, cynhyrchion lles a gofal personol neu gyfleusterau cynhwysol?

- ☐ A oes aelodau staff neu ddisgyblion hŷn ar gael i groesawu teuluoedd sy'n ymweld yn gynnes a'u tywys o amgylch y lleoliad?
- ☐ A oes cyfleoedd i deuluoedd weld eiliadau gwirioneddol o lawenydd, megis plant yn chwarae, yn creu celf neu'n archwilio gweithgareddau?
- ☐ Os nad yw plant yn bresennol yn ystod yr ymweliad, a yw'r arddangosfeydd yn cynnwys ffotograffau o blant yn mwynhau dysgu a bywyd ysgol?

- ☐ A all teuluoedd weld enghreifftiau o gyflawniadau academaidd ac anacademaidd, megis cymryd rhan mewn Eisteddfod, llwyddiant chwaraeon neu weithredoedd caredig sy'n cael eu dathlu mewn gwasanaethau?
- ☐ A oes enghreifftiau'n cael eu rhannu o sut mae plant o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu hyder yn yr iaith?
- ☐ A yw teuluoedd yn cael eu gwahodd i rannu adborth fel y gall yr ysgol barhau i dyfu a gwella?

- ☐ A all staff rannu eu profiadau cadarnhaol eu hunain o weithio o fewn cymuned yr ysgol?
- ☐ A yw staff yn cymryd amser i ddysgu am gefndiroedd, ieithoedd cartref ac anghenion teuluoedd sy'n ymweld?
- ☐ A oes cyfleoedd anffurfiol i rieni siarad â'i gilydd a chysylltu â chymuned ehangach yr ysgol?

**Ar ôl y diwrnod agored, cofiwch ddiolch i'r staff a'r disgyblion a fu'n helpu. Gall adborth gan deuluoedd sy'n ymweld dynnu sylw at feysydd i'w gwella, ond hefyd ddatgelu beth oedd fwyaf gwerthfawr i rieni am y profiad.**

# Pethau i'w Gwneud a Pheidio â'u Gwneud ar Wefannau

Yn aml iawn, eich gwefan yw'r argraff gyntaf y mae teulu'n ei chael o'ch ysgol neu'ch lleoliad. Mae rhieni'n aml yn chwilio am wybodaeth, ond maent hefyd yn chwilio am sicrwydd.

## Pethau i'w Gwneud ar Wefan

- **Gwnewch eich gwefan yn hawdd ei deall.** Defnyddiwch iaith glir a syml ac osgoi jargon addysgol. Esboniwch beth mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ei olygu yn ymarferol, a chynnwys sicrwydd amlwg i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. Dylai teuluoedd deimlo'n wybodus ac yn hyderus, nid wedi'u llethu.

- **Gwnewch wybodaeth allweddol yn hawdd i'w chanfod.** O fewn un neu ddau glic, dylai rhieni allu dod o hyd i ddyddiadau diwrnodau agored, gwybodaeth derbyn, manylion cyswllt, y prosbectws, canllawiau pontio ac atebion i gwestiynau cyffredin. Os bydd yn rhaid iddynt chwilio'n rhy galed, efallai y byddant yn gadael.

- **Defnyddiwch ffotograffau go iawn o'ch ysgol.** Dangoswch blant yn dysgu ac yn chwarae, staff yn rhyngweithio'n gynnes, ystafelloedd dosbarth a mannau awyr agored, ac eiliadau o ddigwyddiadau diwylliannol neu gymunedol. Mae delweddau dilys yn meithrin ymddiriedaeth yn llawer mwy effeithiol na lluniau stoc.

- **Amlygwch ymdeimlad o berthyn.** Yn aml, mae rhieni'n gofyn iddynt eu hunain, "A fydd fy mhlentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yma?" Sicrhewch fod eich gwefan yn adlewyrchu perthnasoedd cefnogol, negeseuon cynhwysol ac ymdeimlad cryf o gymuned.
  Rhowch sicrwydd clir i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. Dylech ddatgan yn agored nad oes angen i deuluoedd siarad Cymraeg gartref, bod cyfathrebu'n ddwyieithog, a bod cefnogaeth ar gael.

- **Cadwch y wefan yn gyfredol.** Tynnwch wybodaeth hen ffasiwn, adnewyddwch ffotograffau'n rheolaidd, diweddarwch dudalennau staff ac archifwch hen newyddion. Gall gwefan hen ffasiwn danseilio hyder yn anfwriadol.

# Pethau i'w Gwneud a Pheidio â'u Gwneud ar Wefannau

Yn aml iawn, eich gwefan yw'r argraff gyntaf y mae teulu'n ei chael o'ch ysgol neu'ch lleoliad. Mae rhieni'n aml yn chwilio am wybodaeth, ond maent hefyd yn chwilio am sicrwydd.

## Pethau i'w Hosgoi ar Wefan

**Peidiwch â gorlwytho'r hafan.**
Gyda blociau hir o destun, negeseuon cystadleuol neu ormod o faneri; cadwch hi'n lân, â ffocws, ac yn groesawgar.

**Peidiwch â chuddio gwybodaeth derbyn.**
Dylai manylion diwrnodau agored a cheisiadau fod yn weladwy ar unwaith. Os na all rhieni weld yn gyflym sut i wneud cais, efallai y byddant yn edrych yn rhywle arall.

**Peidiwch â chymryd yn ganiataol fod gan deuluoedd wybodaeth flaenorol.**
Os ydych yn cyfeirio at drochi neu fodelau cwricwlwm, esboniwch nhw'n glir. Efallai mai dyma'r tro cyntaf i deuluoedd ddod ar draws y termau hyn.

**Peidiwch â dibynnu ar iaith polisi yn unig.**
Mae rhieni am weld cynhesrwydd, straeon go iawn a phrofiadau gwirioneddol disgyblion.

**Peidiwch ag anghofio defnyddwyr ffonau symudol.**
Bydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn edrych ar eich gwefan ar ffôn. Sicrhewch fod y testun yn ddarllenadwy, y botymau'n hawdd eu clicio, y dolenni'n gweithio'n iawn a bod PDFs yn agor yn hwylus.

## Gwiriad Iechyd Gwefan

- A fyddai rhiant nad yw'n siarad Cymraeg yn teimlo ei fod wedi'i gysuro yma?
- A ellir dod o hyd i wybodaeth am ddiwrnod agored (neu'r wybodaeth bwysig berthnasol i'r tymor) mewn llai na 30 eiliad?
- A yw'r wefan yn adlewyrchu cynhesrwydd cymuned yr ysgol?
- A yw plant go iawn a phrofiadau go iawn yn weladwy?

**Nid oes angen i'ch gwefan fod yn berffaith. Mae angen iddi fod yn glir, yn gynnes, yn gysurlon ac yn gyfredol, gan helpu teuluoedd i weld y llawenydd, y perthyn, y cysylltiad a'r twf mae addysg cyfrwng Cymraeg yn eu cynnig.**





# Cyfeirio a Chymorth



**Mae cyfeirio clir yn helpu teuluoedd i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth cywir ar yr amser cywir.**

Yn aml, ysgolion a lleoliadau yw'r man cyntaf y mae teuluoedd yn troi ato am arweiniad ar dderbyniadau, pontio, cludiant, gyrfaoedd a dysgu iaith. Mae dull clir o gyfeirio yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn gywir, yn gyson ac yn hawdd ei rhannu.

**Partneriaethau Lleol a Rhanbarthol**
Mae perthnasoedd lleol cryf yn cefnogi hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac ymgysylltiad teuluoedd.

**Menter Iaith (cangen leol)**
Yn cefnogi ymgysylltiad cymunedol, digwyddiadau i deuluoedd a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n adnodd gwerthfawr ar gyfer gwaith allgymorth a gweithgareddau diwylliannol.

**Tîm Addysg Gymraeg yr Awdurdod Lleol**
Yn darparu arweiniad ar flaenoriaethau CSCA, data derbyniadau, gwybodaeth am drafnidiaeth a mentrau rhanbarthol. Mae cydweithio yn sicrhau negeseuon cyson.

**Clwstwr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd**
Mae digwyddiadau pontio ar y cyd, nosweithiau agored a negeseuon cyson yn cryfhau hyder rhieni ac yn cefnogi llwybrau dilyniant i ddysgwyr.

**Gall fod yn ddefnyddiol penodi aelod o staff i gydlynu partneriaethau, rhannu diweddariadau a chadw gwybodaeth yn gyfredol.**









# Sefydliadau Cenedlaethol a Chysylltiadau Defnyddiol

Gall nifer o sefydliadau cenedlaethol gefnogi ysgolion, lleoliadau a theuluoedd gyda addysg cyfrwng Cymraeg, datblygiad iaith, gyrfaoedd a dilyniant.

**Mudiad Meithrin**
Yn cefnogi darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a chlwbiau chwarae.

**Cymraeg i Blant**
Yn cefnogi rhieni o'r genedigaeth gyda datblygiad iaith Gymraeg.

**Mentrau Iaith Cymru**
Rhwydwaith o fentrau iaith lleol sy'n cefnogi gweithgareddau cymunedol.

**Awgrym:**
Rhannwch y dolenni hyn gyda rhieni yn ystod diwrnodau agored neu ar eich gwefan.

**Urdd Gobaith Cymru**
Yn darparu chwaraeon, celfyddydau, profiadau preswyl a gweithgareddau ieuenctid.

**RhAG**
Gwybodaeth a chyngor i rieni ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg.

**Gyrfa Cymru / Careers Wales**
Yn darparu cyngor gyrfa a gwybodaeth am y farchnad lafur, gan gynnwys llwybrau gyrfa cyfrwng Cymraeg.

**Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg / National Centre for Learning Welsh**
Yn cefnogi oedolion sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Yn cefnogi datblygiad cyfrwng Cymraeg i addysg bellach ac uwch.

**Llywodraeth Cymru – Cefnogaeth a Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg**
Trosolwg o bolisi, canllawiau a gwasanaethau'r iaith Gymraeg.

**Mae cyfeirio clir yn helpu teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr amser cywir ac yn atgyfnerthu hyder mewn addysg cyfrwng Cymraeg.**

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education





# Cyllid a Chefnogaeth Ymarferol



**Gall ysgolion a lleoliadau ddymuno archwilio cyllid ychwanegol i gefnogi hyrwyddo, ymgysylltu â theuluoedd, cynhwysiant a gweithgarwch cymunedol.**

**Grant Hanfodion Ysgol**
Cefnogaeth ariannol i helpu teuluoedd gyda chost eitemau ysgol fel gwisg ysgol, offer a setiau addysg gorfforol.

**Cronfa Gymunedol Loteri Genedlaethol**
Llinellau cyllid cymunedol sy'n cefnogi lles, cynhwysiant a phrosiectau ymgysylltu lleol.

**Sefydliad Cymunedol Cymru / Community Foundation Wales**
Yn darparu ystod o raglenni grantiau lleol a rhanbarthol sy'n cefnogi mentrau cymunedol.

**Chwarae Cymru / Play Wales**
Yn darparu canllawiau a gwybodaeth am gyfleoedd cyllido sy'n gysylltiedig â chwarae a lles.

**Grants4Schools**
Cronfa ddata chwilio am gyfleoedd cyllido ar gyfer ysgolion a phrosiectau addysgol.

**Plant yng Nghymru / Children in Wales**
Gwybodaeth am gefnogaeth ariannol a adnoddau sydd ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

**Medr**
Gwybodaeth am gyllid a chefnogaeth ar gyfer darparwyr addysg ôl-16 yng Nghymru.

**Awgrym:**
Dechreuwch yn fach — gall un cais llwyddiannus adeiladu momentwm.

**Rhestr wirio cyllid syml**

- Nodi aelod o staff i arwain ar gyllid a hyrwyddo
- Cadw rhestr syml o gyfleoedd a dyddiadau cau allweddol
- Cysylltu ceisiadau â blaenoriaethau'r ysgol ac amcanion ymgysylltu cymunedol
- Adolygu pa gymorth sydd eisoes ar gael drwy bartneriaid lleol
- Cadw gwybodaeth a manylion cyswllt yn gyfredol

# Myfyrdodau Cloi

Datblygwyd y pecyn adnoddau hwn i ddiwallu angen clir a nodwyd gan Bartneriaeth ranbarthol Cymraeg i Bawb De-ddwyrain Cymru: cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo eu hunain yn hyderus a helpu rhieni i deimlo'n frwdfrydig wrth ddewis eu hysgol neu leoliad lleol.

Mae'n dwyn ynghyd offer ymarferol, canllawiau clir a thempledi addasadwy y gall ysgolion a lleoliadau eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth, dangos eu cryfderau, chwalu mythau parhaus a rhoi sicrwydd i deuluoedd ar adegau allweddol o wneud penderfyniadau, gan gynnwys pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd.

**Mae'r pecyn hwn yn adlewyrchu realiti bob dydd addysg cyfrwng Cymraeg: dysgu llawen, cysylltiadau cymunedol cryf, cysylltiad ystyrlon ag iaith a diwylliant, a thwf cyson mewn hyder a chyfleoedd.**

Mae'r profiadau hyn yn cyd-fynd yn naturiol â phedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac ag uchelgeisiau CSGA awdurdodau lleol i gynyddu derbyniad a chryfhau dilyniant.

**Nid y bwriad yw creu pwysau nac ychwanegu at lwyth gwaith,** ond darparu strwythur, eglurder a hyder. Nid oes angen adrannau marchnata na chyllidebau mawr ar leoliadau addysgol er mwyn hyrwyddo eu hunain yn dda; yr hyn sydd ei angen arnynt yw cyfathrebu dilys sy'n gwneud y cynhesrwydd, y gefnogaeth a'r cyfle sydd eisoes yn bresennol yn weladwy.

Drwy gryfhau'r ffordd mae ysgolion a lleoliadau yn rhannu eu stori ar-lein, mewn digwyddiadau agored ac mewn sgyrsiau bob dydd, mae'r pecyn hwn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth. Pan fydd ymddiriedaeth yn tyfu, mae mwy o deuluoedd yn teimlo wedi'u cysuro — ac mae dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn dod yn benderfyniad cadarnhaol a hyderus.

**Mae'n adnodd digidol dwyieithog, ymarferol, a all esblygu dros amser, ymateb i anghenion cymunedol a chefnogi'r uchelgais gyffredin o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.**

Wedi'i ddatblygu ar gyfer lleoliadau gofal plant ac addysg yn Ne-ddwyrain Cymru, mae'r pecyn adnoddau hwn wedi'i gynllunio i fod yn addasadwy ac yn addas i'w ddefnyddio'n ehangach.

Gwnewch y pethau bychain.

"Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob plentyn."
- Cymraeg i Bawb



Cymraeg i Bawb

YPB

MENTRAU IAITH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government